**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

14 December 2023

Annwyl David,

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Darparu Swyddfeydd Etholaethol**

Diolch am eich llythyr ar 1 Rhagfyr am drafodaethau'r Pwyllgor Biliau Diwygio.

Rwy'n ysgrifennu wrth ymateb i'ch cais am wybodaeth am drafodaethau'r Comisiwn sy'n ymwneud â gweithio mewn hybiau. Gwnaethoch gyfeirio'n benodol at y cynnig a wnaed gan Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol, mewn llythyr at eich Pwyllgor, y dylid 'ystyried sefydlu 16 o swyddfeydd etholaethol parhaol—un ym mhob un o etholaethau newydd y Senedd—y gallai Aelodau, staff cymorth a staff y Comisiwn weithredu ohonynt.'

Yn ein cyfarfod ar 30 Ionawr eleni, cyflwynwyd gwybodaeth i'r Comisiwn am themâu a oedd wedi dod i'r amlwg o'r ymarfer ymgysylltu â'r Aelodau, a gynhaliwyd tua diwedd 2022 fel ymarfer ar y cyd â'r Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Diben yr ymarfer oedd cael dealltwriaeth well o anghenion yr Aelodau o ran ffyrdd o weithio yn y tymor canolig i'r tymor hir gyda'r bwriad y byddai'r canfyddiadau'n llywio darpariaeth gwasanaethau a chymorth yn y dyfodol. Cymerodd dau draean o'r Aelodau ran ynddo. Cyflwynwyd y safbwyntiau a fynegwyd i ni mewn pum prif thema. Un ohonynt oedd Gweithio mewn Hybiau.

Nododd y Comisiynwyr gryfder y teimladau a fynegwyd yn erbyn hybiau fel swyddfa etholaethol a rennir ac nid oeddem fel Comisiwn, felly, yn bwriadu ystyried yr opsiwn ymhellach.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon o fudd i drafodaethau'r Pwyllgor.

Yn gywir,



Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Y Llywydd, ar ran Comisiwn y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English